

Ein Cyf: Hwys3/

Chwefror 2014

Annwyl Riant / Warcheidwad,

## TEITHIO PLAS CRUG

Yn dilyn y llythyr blaenorol, a anfonwyd fis Mehefin 2013, ynghylch yr uchod cynhaliwyd cyfarfod pellach o Bartneriaeth Teithio Plas Crug (PTP) brynhawn dydd lau 28 Tachwedd 2013.

Fe gofiwch chi fod PTP yn cynnwys yr aelodau isod:

- Cyngor Sir Ceredigion
- Heddlu Dyfed Powys
- Ysgol Gymraeg Aberystwyth
- Ysgol Gynradd Gymunedol Plas Crug
- Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig
- Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC)

Prif amcanion PTP yw hybu, annog a hwyluso teithiau diogel i'r ysgolion sydd yn ardal Plas Crug, Aberystwyth.

Yn y cyfarfod diweddar manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i fynd ar ymwelliad safle i weld beth yw'r sefyllfa bresennol o ran teithio i'r ysgolion ac yn ôl ar ddiwrnod cyffredin pan fo'r ysgolion ar agor. Braff oedd gweld gwelliant sylweddol a oedd yn ategu'r ymatebion anecdotaidd a gafwyd yn y cyfamser rhwng cyfarfodydd PTP gan y rhanddeiliaid.

Felly, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bawb a wnaeth gymaint i wella'r sefyllfa. Mae aelodau PTP yn awyddus iawn i gynnal a datblygu'r gwelliannau sydd wedi eu gwneud. Felly, yr wyf yn cadarnhau y bydd y mesurau canlynol, a gyflwynwyd fel peilot yn gyntaf oll, yn cael eu hymestyn am gyfnod amhenodol:

- Bydd Rhieni / Gwarcheidwaid disgylion y ddwy ysgol yn cael parcio yn y Maes Parcio, Parcio a Theithio, Boulevard St. Brieuc, rhwng 15:00 - 16:00 ar ddyddiau ysgol yn unig; y tu allan i'r oriau hynny codir y taliadau parcio safonol a gallai ceir heb docynnau dilys gael dirwy. Mae'r maes parcio'n agos at yr ysgolion ac mae'r llwybr yn ddiogel a mynediad da i'r rhwydwaith ffyrdd lleol. Mae'n debygol y gallai'r trefniant hwn arbed amser i rieni / gwarcheidwaid o'i gymharu â'r drefn bresennol. Byddwn yn annog cymaint ag sy'n bosibl o'r rhieni / gwarcheidwaid i ddefnyddio'r ddarpariaeth newydd.
- Bydd swyddogion Heddlu Dyfed Powys a Thîm Gorfodi Parcio Sifil Cyngor Sir Ceredigion yn cadw golwg yn rheolaidd ar ardal Plas Crug i gynnal llif y traffig a fydd yn cynnwys cyfyngiadau parcio. Cofiwch mai bwriad y rheiny yw ceisio sicrhau diogelwch eich plant. Dylid cofio hefyd bod ymgynghori wedi bod ynghylch y cyfyngiadau parcio cyfredol a'u bod nhw wedi eu cytuno.

Yn sgil yr ymatebion a gafwyd gan rieni a gwarcheidwaid y bwriad nawr yw ystyried posibiliadau i wneud gwelliannau bychain i'r seilwaith yn yr ardal er mwyn annog pobl i gerdded, sgrialu a seiclo i'r ysgol.

Bydd PTP hefyd yn ceisio bwrw ymlaen â chynlluniau a fydd yn hybu ffyrdd o fyw sy'n iach ac yn amgylcheddol gynaliadwy.

Er mwyn ceisio annog ymddygiad cadarnhaol wrth deithio mae pob plentyn yn cael dyddiadur taith sy'n annog pawb:

**i deithio bob dydd mewn ffordd sy'n hapus, yn iachus ac yn llesol i'r amgylchedd**

Caiff hwnnw ei lanw'n ddyddiol yn yr Ysgol a bydd y data a gesglir yn rhoi gwaelodlin inni ynghylch y patrymau teithio a bydd yn helpu wrth inni wneud ceisiadau ar gyfer gwella'r seilwaith at y dyfodol.

Mae'r PTP yn deall yn iawn y bydd angen i'r rhieni a'r gwarcheidwad chwarae eu rhan er mwyn iddi gyflawni ei nodau. Yn y pen draw, y rhai y mae'n rhaid iddyn nhw gael mynediad i'r ardal yw'r rhai, gyda'i gilydd, a fydd yn gallu dwyn dylanwad cadarnhaol ar y sefyllfa. Os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau, cwestiynau neu sylwadau cysylltwch â ni er mwyn i'r rheiny gael eu hystyried fel rhan o waith parhaus PTP.

Yn gywir,

Pennaeth yr Ysgol Gymraeg

Ar ran Partneriaeth Teithio Plascrug

Pennaeth Ysgol Plascrug

Our ref: Hwys3/

February 2014

Dear Parent / Guardian,

## **PLASCRUG TRAVEL**

Further to the previous letter, dispatched in June 2013, regarding the above a further meeting of the Plascrug Travel Partnership (PTP) took place on the afternoon of Thursday the 28 November 2013.

As you may recall the membership of the PTP consists of:

- Ceredigion County Council
- Dyfed Powys Police
- Ysgol Gymraeg Aberystwyth
- Plascrug Community Primary School
- Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig
- Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) The Mid Wales Transport Consortium

The main aims of the PTP are to promote, encourage and facilitate safe travel to and from the schools located in the Plascrug area of Aberystwyth.

As part of the most recent meeting members took the opportunity to undertake a site visit to see what the situation now was with regards travel to and from the schools on an average school day. Very positively a marked improvement was witnessed which supported anecdotal feedback received in the interim between the PTP meetings provided by stakeholders.

On the basis of the above I would very much like to take the opportunity to thank all of you who have been involved in positively influencing the situation.

The PTP members are very eager to maintain and develop the improvements that have been achieved. With this in mind I can confirm that the following measures, introduced initially on a pilot basis, will be extended until further notice:

- Parents / Guardians of pupils at both schools will be allowed to park in the Park and Ride Car Park, Boulevard St. Brieuc, between 15:00 – 16:00 on school days only; outside of this time, the standard car parking charges apply and vehicles not displaying a valid ticket may incur a Penalty Charge Notice. This location is within easy and safe walking distances of both primary schools and provides good access to the local road network. It is likely that making use of this arrangement could, save parents / guardians time on current practice. I would encourage as many parents and guardians as possible to make use of this provision.

- Officers from Dyfed Powys Police and Ceredigion County Council's Civil Parking Enforcement Team will regularly patrol the Plascrug area to support the flow of traffic which will include the enforcement of parking restrictions. Please remember the intention of their presence is to positively influence issues affecting the safety of your children. It should also be borne in mind that the current parking restrictions have previously been consulted upon and agreed.

Arising from feedback received from parents and guardians it is now intended to investigate opportunities to make small scale improvements to infrastructure in the area to encourage further walking, scooting and cycling to the schools.

The PTP will also seek to move forward with initiatives that actively promote healthy and environmentally sustainable lifestyles.

With a view of maintaining positive travel behaviour each child is being provided with a travel diary that encourages:

***travelling every day in a happy, healthy and environmentally sustainable way***

This will be completed on a daily basis at School and the data gathered will provide a baseline regarding travel patterns and can support possible future bids for infrastructure improvements.

The PTP fully understands that to achieve its objectives requires the engagement of parents and guardians. Ultimately it is those requiring access to the area who are the ones who can, collectively, have the most positive influence on the situation. Should you have any suggestions, queries or comments please do not hesitate to contact us so that these can be considered as part of the PTP's on-going work.

Yours sincerely,

Head Teacher Ysgol Gymraeg

Head Teacher Ysgol Plascrug

On behalf of the Plascrug Travel Partnership